***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 12

## TROSI TENANTIAETHAU A THRWYDDEDAU PRESENNOL SY'N BODOLI CYN I BENNOD 3 O RAN 10 DDOD I RYM

*Penderfynu a yw tenantiaeth neu drwydded sy'n bodoli eisoes yn gontract meddiannaeth*

2 (1) Mae Atodlen 2 yn gymwys i—

(a) tenantiaeth neu drwydded a oedd yn denantiaeth ddiogel, yn denantiaeth sicr, yn denantiaeth ragarweiniol neu'n denantiaeth isradd yn union cyn y diwrnod penodedig, a

(b) tenantiaeth a fodolai yn union cyn y diwrnod penodedig ond nad yw o fewn paragraff (a),

fel pe bai paragraffau 3(2)(b) a 4 (sefydliadau gofal) wedi eu hepgor.

(2) Mae Atodlen 2 yn gymwys i denantiaeth a oedd yn denantiaeth ddiogel, yn denantiaeth sicr, yn denantiaeth ragarweiniol neu'n denantiaeth isradd yn union cyn y diwrnod penodedig fel pe bai paragraffau 3(2)(c) a 5 (trefniadau hwylus dros dro) wedi eu hepgor.

(3) Caiff y landlord, mewn perthynas â thenantiaeth neu drwydded a fodolai yn union cyn y diwrnod penodedig, roi hysbysiad o dan baragraff 1 neu 3 o Atodlen 2 ar unrhyw adeg cyn diwedd y cyfnod hysbysu cychwynnol.

(4) Os yw'r landlord yn gwneud hynny, mae'r denantiaeth neu'r drwydded i'w thrin fel pe bai wedi dod yn gontract meddiannaeth ar y diwrnod penodedig.